Gofynnwch am/*Ask for* **Deborah Weston**
Ein Cyf/*Our Ref* **DW/WM4**
Eich Cyf/*Your Ref*
Ffôn/*Tel* **01633 210631**
Rhif Uniongyrchol/*Direct* **01633 210631**
*DX*
E-Bost/*E-Mail* school.reorg@newport.gov.uk

**Gwasanaeth Addysg**
**Education Service**

Canolfan Ddinesig/Civic Centre
Casnewydd/Newport
De Cymru/South Wales
NP20 4UR

21 Tachwedd 2023

Annwyl Randdeiliad

**Addasu dyddiadau a gytunwyd ar gyfer adleoli Ysgol Gynradd Pilgwenlli ac Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli**


Mae Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar wedi penderfynu addasu camau 2 a 3 cynnig ad-drefnu ysgol a gymeradwywyd yn flaenorol. Mae hyn yn effeithio ar y dyddiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer adleoli Ysgol Gynradd Pilgwenlli ac Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli.  Bu oedi wrth drosglwyddo'r tir ar safle Whiteheads o Lywodraeth Cymru i'r datblygwr enwebedig ac yna i'r Cyngor, sy'n golygu na fu modd dechrau ar y gwaith adeiladu o ran yr ysgol newydd tan yr haf 2023. O ganlyniad, ni fydd yr ysgol newydd yn barod i'w meddiannu tan fis Ionawr 2025 sydd hefyd yn oedi adleoli Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli i safle Ysgol Gynradd Pilgwenlli i fis Ebrill 2025.

Mae'r cynnig felly wedi'i addasu fel y bydd:

- Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn adleoli o'i safle presennol i'r adeilad newydd ar ddatblygiad Whiteheads o fis Ionawr 2025 yn hytrach na mis Ionawr 2024 fel y pennwyd yn flaenorol, a;
- bod Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli wedyn yn trosglwyddo o'i safle dros dro yng Nghaerllion i leoliad parhaol ar safle ysgol bresennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli o fis Ebrill 2025, yn hytrach na mis Medi 2024 fel y pennwyd yn wreiddiol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor yn: https://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx

Yn gywir



**Sarah Morgan**
**Prif Swyddog Addysg**
**Prif Swyddog Addysg**